Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Y Gelli
# Safle'r Gelli
# Ffordd Bethel
# Caernarfon
# LL55 1DU

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 14/03/2017**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin y Gelli sy’n cwrdd mewn adeilad pwrpasol ar safle Ysgol y Gelli yn nhref Caernarfon, yn awdurdod lleol Gwynedd. Mae’r lleoliad yn cynnig addysg a gofal i blant o ddwy a hanner i bedair oed rhwng 8.50 a 10.55 y bore, bum diwrnod yr wythnos am 39 wythnos y flwyddyn.

Mae’r lleoliad wedi’i gofrestru i dderbyn hyd at 24 o blant fesul sesiwn. Mae 23 o blant ar y gofrestr ar hyn o bryd, gyda saith ohonynt yn cael addysg blynyddoedd cynnar wedi ei hariannu gan yr awdurdod.

Cymraeg yw prif iaith cartref y rhan fwyaf o blant y lleoliad gyda’r gweddill o aelwydydd lle siaredir y Gymraeg gan o leiaf un rhiant. Ychydig iawn o blant ag anghenion dysgu ychwanegol oedd yn mynychu’r lleoliad adeg yr arolygiad.

Mae pedwar aelod o staff profiadol a chymwysedig yn gweithio yn y lleoliad ac un gwirfoddolwr. Mae’r arweinydd wedi bod yn ei swydd ers Mawrth 2011

Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym mis Mai 2015 a gan Estyn ym mis Chwefror 2010.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- y plant yn hapus iawn ac yn teimlo'n ddiogel
- llawer o'r plant yn gwneud cynnydd da yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth
- perthynas hyfryd yn bodoli rhwng yr ymarferwyr a'r plant
- llawer o'r plant yn gwrando'n briodol ar storïau ac yn dilyn cyfarwyddiadau yn gywir
- rhan fwyaf y plant yn trin ystod o offer bach a chyfarpar ysgrifennu yn hyderus
- medrau rhif llawer o'r plant yn datblygu'n dda ar gyfer eu hoed a'u gallu.
- llawer o'r plant yn ymddwyn yn dda
- profiadau dysgu yn eang a chytbwys
- ymarferwyr yn cynnig profiadau dysgu cyfoethog sydd yn ennyn diddordeb bron pob plentyn yn llwyddiannus
- ymarferwyr yn modelu'r iaith Gymraeg yn dda a chyson

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn dda oherwydd bod:

- yr arweinydd yn brofiadol, trefnus a chydwybodol iawn a bod ganddi ddisgwyliadau uchel o'i hun ac o'r holl ymarferwyr
- yr arweinydd wedi sefydlu gweledigaeth glir lle mae pawb yn cydweithio i sicrhau'r gorau posibl i'r plant yn eu gofal
- yr arweinydd wedi llwyddo i feithrin ysbryd o gydweithio clos ymysg staff fel bod ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldebau
- gweithdrefnau cynllunio ac asesu manwl yn cael effaith gadarnhaol ar safonau plant
- gan swyddogion y pwyllgor rheoli wybodaeth ddefnyddiol am yr hyn sy'n digwydd o ddydd i ddydd yn y lleoliad ac yn adnabod y lleoliad yn dda
- yr adroddiad hunanarfarnu yn adnabod llawer o gryfderau'r lleoliad
- blaenoriaethau ar gyfer meysydd i'w gwella yn cael eu trosglwyddo i'r cynllun datblygu yn llwyddiannus
- y lleoliad wedi ymateb yn dda i argymhellion yr arolygiad blaenorol
- gan y lleoliad ystod o bartneriaethau effeithiol

## Argymhellion

A1 Cynllunio yn fwy bwriadus ar gyfer gwneud defnydd cyson o'r ardal allanol

A2 Cyflwyno mwy o gyfleoedd cyson i blant ddatblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)

A3 Sicrhau amser gweinyddol i'r arweinydd

A4 Datblygu'r berthynas gyda'r ysgol gynradd leol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn ystod sesiynau, mae llawer o'r plant yn gwneud cynnydd da yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth.

Mae medrau llythrennedd llawer o'r plant yn gadarn. Maent yn siarad yn glir ac yn hyderus gyda'i gilydd ac oedolion gan ddefnyddio brawddegau llawn yn gyson. Mae ychydig yn cynnal sgwrs aeddfed gan ddefnyddio iaith fyrlymus. Mae llawer yn gwrando'n briodol ar storïau ac yn cymryd rhan bwrpasol yn y caneuon dosbarth, gan wneud y symudiadau priodol. Mae bron pob un yn dod o hyd i'w henwau heb gymorth pan fyddant yn cyrraedd ac wrth hunangofrestru.

Mae llawer yn dangos diddordeb mewn llyfrau a'u cynnwys, ac yn eu trin a thrafod yn ystyrlon gydag oedolion gan ddefnyddio geirfa briodol. Mae llawer yn ymateb yn frwdfrydig i storïau gan ateb cwestiynau'n hyderus am ddigwyddiadau gwahanol. Maent yn cyfeirio at ddysgu blaenorol yn llwyddiannus wrth ddisgrifio cynnwys stori. Mae llawer yn creu marciau yn effeithiol gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau fel paent, sialc a phensiliau lliw.

Mae medrau rhif llawer o'r plant yn datblygu'n dda ar gyfer eu hoed a'u gallu. Mae'r rhan fwyaf yn adrodd rhifau i ugain yn llwyddiannus ac yn cyfateb rhif a gwrthrychau hyd at 10. Maent yn adnabod siapiau dau ddimensiwn cyfarwydd yn dda wrth iddynt eu cyfateb gyda chardiau siâp. Mae llawer yn defnyddio iaith fathemategol gywir wrth drafod gwaith rhif, er enghraifft wrth drafod un yn fwy a llai na gwahanol rifau ac wrth lenwi a gwacáu cynhwysyddion o wahanol faint yn y tywod.

Mae gan fwyafrif o'r plant fedrau TGCh priodol. Maent yn dechrau defnyddio tegan rhaglenadwy a thrin llechen gyfrifiadurol yn weddol hyderus.

Mae gan lawer o'r plant fedrau corfforol datblygedig. Maent yn cydbwyso'n fedrus wrth gamu o un bloc i'r llall a symud beiciau yn bwrpasol ar hyd llwybr arbennig. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio offer bach gyda rheolaeth gadarn mewn amrywiaeth o dasgau gwahanol, fel brwshys paent, sialc a botymau. Mae medrau llawer o'r plant o ran datrys problemau yn dechrau datblygu'n briodol, er enghraifft wrth osod blociau sy'n ffitio yn ei gilydd mewn trefn.

**Lles: Da**

Mae bron pob plentyn yn mwynhau dod i'r lleoliad ac yn hapus yno. Maent yn ymgartrefu'n gyflym ac yn dewis gweithgareddau yn annibynnol. Mae'r rhan fwyaf wrth eu bodd yn cymryd rhan yn yr ystod o weithgareddau ac mae llawer yn dyfalbarhau am gyfnodau rhesymol. Gall ychydig ganolbwyntio ar dasg a dyfalbarhau am gyfnodau estynedig wrth ymchwilio i beth sydd wedi digwydd i ddŵr ar ôl ei osod yn y rhewgell dros nos.

Mae bron bob plentyn yn dangos agweddau da tuag at ddysgu. Mae’r rhan fwyaf yn dechrau datblygu’n ddysgwyr annibynnol wrth gymryd rhan weithredol yn eu dysgu. Maent yn datblygu hyn drwy helpu gweini yn ystod amser byrbryd ac wrth wisgo a dadwisgo cotiau. Ar y cyfan, maent yn ymateb yn frwdfrydig i gwestiynau gan oedolion. Mae llawer o’r plant yn dechrau gwneud dewisiadau synhwyrol ynglŷn â’r hyn yr hoffent ei wneud yn ystod chwarae rhydd, er enghraifft wrth greu ffurfiau gyda blociau sy’n cysylltu â'i gilydd.

Mae’r rhan fwyaf o’r plant yn ymddwyn yn dda, yn ystyriol o eraill ac yn gwrtais. Maent yn dysgu cymryd eu tro, rhannu ac arfer hunanreolaeth yn dda. Mae llawer yn helpu i dacluso pan ofynnir iddynt ac maent yn defnyddio offer yn ofalus.

Yn ystod amser byrbryd, mae’r rhan fwyaf o’r plant yn arddangos medrau cymdeithasol da. Maent yn dysgu dweud ‘diolch’ ac maent i gyd yn ymwybodol bod angen hylendid da trwy olchi eu dwylo cyn amser byrbryd.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae’r ymarferwyr yn cynnig profiadau dysgu cyfoethog sydd yn ennyn diddordeb bron pob plentyn yn llwyddiannus. Ar y cyfan, mae’r profiadau dysgu yn bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus iawn. Mae’r ymarferwyr yn cwrdd yn wythnosol i gyd-gynllunio’n effeithiol ac yn adeiladu ar brofiadau a dysgu blaenorol y plant. Maent yn cynnig gweithgareddau diddorol sy’n ysgogi bron bob plentyn i ddarganfod dros eu hunain, er enghraifft wrth iddynt arbrofi gyda rhew. Mae’r cynlluniau yn bodloni anghenion llawer o’r plant ac yn nodi amcanion dysgu ar gyfer gweithgareddau ffocws a gweithgareddau cyfoethogi yn glir. Mae’r ymarferwyr yn cynnwys syniadau’r plant yn dda yn eu cynlluniau trwy roi cyfleoedd priodol iddynt gynnig syniadau diddorol ar gyfer y thema.

Mae’r ymarferwyr yn cynllunio’n effeithiol er mwyn datblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant ac yn sicrhau dilyniant a pharhad yn y medrau hyn. Er enghraifft, mae cyfleoedd i gyfrif botymau o wahanol liwiau ar y dyn eira yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar fedrau rhif y plant. Mae’r lleoliad yn darparu cyfleoedd buddiol i’r plant ddatblygu eu medrau corfforol, meddwl a chreadigol, gan gynnwys printio gyda dwylo i greu llun coed a lili wen fach. Fodd bynnag, er bod y plant yn cael cyfleoedd i ddefnyddio offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), nid yw’r cynlluniau ar gyfer hybu medrau TGCh y plant wedi datblygu i’r un graddau. O ganlyniad, nid oes digon o gyfleoedd i blant ddatblygu eu medrau TGCh yn systematig ar draws meysydd dysgu.

Mae’r plant yn derbyn cyfleoedd gwerthfawr i ddewis eu tasgau a’u gweithgareddau eu hunain yn yr ardaloedd tu fewn. Mae tasgau ffocws yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn cael eu herio’n briodol yn ôl eu hoed a’u gallu. Fodd bynnag, nid yw’r gweithdrefnau cynllunio yn nodi cyfleoedd yn ddigon cyson i’r plant ddysgu trwy chwarae yn y tu allan ac ym mhob tywydd.

Maent yn derbyn cyfleoedd amrywiol i ddysgu dangos parch tuag at bobl o bob cefndir diwylliannol ac yn dysgu am draddodiadau a dathliadau Cymreig yn dda trwy ddathlu Dydd Santes Dwynwen a Dydd Gŵyl Dewi.  Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu dealltwriaeth y plant ymhellach trwy eu galluogi i wisgo dillad traddodiadol a bwyta cawl cennin wedi ei baratoi ganddynt.

Mae’r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o’r gymuned i gyfoethogi profiadau’r plant. Er enghraifft, mae ymweliad ag archfarchnad leol yn datblygu ymwybyddiaeth o’r byd o’u cwmpas a’r ardal leol yn effeithiol.  Gwneir defnydd priodol o ymwelwyr i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant, er enghraifft ymweliadau gan y frigâd dân a’r heddlu i gyfoethogi’r thema ‘nos a dydd’.

**Addysgu:  Da**

Ar y cyfan, mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o egwyddorion y Cyfnod Sylfaen a datblygiad plant.  Maent yn sicrhau cydbwysedd llwyddiannus rhwng gweithgareddau sy’n cael eu cyfeirio gan oedolion a rhai sy’n cael eu dewis gan blant yn y tu fewn.  Mae’r ymarferwyr yn gwneud defnydd addas o ystod o ddulliau addysgu ac adnoddau priodol i lywio’r dysgu.  Maent yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i’r plant ddysgu trwy chwarae, er enghraifft wrth iddynt rolio toes a chwarae rôl. Mae’r gweithgareddau yn cadw diddordeb llawer o’r plant yn dda ac yn eu galluogi i ddyfalbarhau â’u tasgau.  Fodd bynnag, nid yw’r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd digon cyson i blant ddysgu trwy chwarae a dilyn eu diddordebau y tu allan.

Un o gryfderau’r lleoliad yw’r modd mae’r holl ymarferwyr yn cydweithio’n effeithiol fel tîm ac yn cefnogi ei gilydd yn dda er lles y plant.  Mae perthynas hyfryd yn bodoli rhwng y staff a’r plant.  Mae hyn yn cyfrannu’n dda at reoli ymddygiad y plant a’u parodrwydd i ddangos parch at eu gilydd.

Mae’r ymarferwyr yn modelu’r iaith Gymraeg yn dda.  Maent yn cynnig cyfleoedd cyfoethog i ymestyn iaith y plant drwy siarad â nhw yn gyson a darparu digon o gyfleoedd iddynt  ymateb i gwestiynau.  O ganlyniad, mae dealltwriaeth a medrau llafar y plant yn datblygu’n dda.

Mae trefniadau’r y lleoliad ar gyfer asesu cynnydd y plant yn effeithiol.  Mae’r holl ymarferwyr yn canmol plant ar lafar yn gyson ac yn eu holi’n fedrus yn ystod y sesiwn.  Mae ymarferwyr yn arsylwi ar y plant yn ddyddiol ac yn cadw cofnodion cynhwysfawr ar eu datblygiad.  O ganlyniad, mae gan yr ymarferwyr ymwybyddiaeth dda o anghenion pob plentyn.  Yn gyffredinol, maent yn defnyddio’r wybodaeth hon yn briodol i gynllunio’r cam nesaf yn eu haddysg.  Mae rhieni’n derbyn gwybodaeth werthfawr am gynnydd eu plant yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad trwy sgyrsiau rheolaidd a noswaith agored.  Penllanw’r wybodaeth a rennir yw trosglwyddo’r ‘Llyfr Trysor’, gydag esiamplau o waith y plentyn o fewn y meysydd gwahanol, i’r rhieni. Fodd bynnag, nid oes trefniadau digon ffurfiol i rannu gwybodaeth am gyraeddiadau’r plant gyda’r ysgol wrth iddynt drosglwyddo yno.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:  Da**

Mae’r lleoliad yn hyrwyddo pwysigrwydd bwyta’n iach yn effeithiol.  Mae’r amser diod a ffrwythau yn atgyfnerthu hyn yn dda gan roi cyfleoedd buddiol i blant ddatblygu eu

medrau cymdeithasol. Mae hefyd yn rhoi cyfle cadarn i'r plant feithrin amynedd, dysgu cymryd eu tro a rhannu. Mae'r ymarferwyr yn annog y plant yn llwyddiannus i gymryd cyfrifoldeb wrth weithredu fel helpwr y dydd. Rhan o'r cyfrifoldeb yw ailgylchu unrhyw sbarion bwyd ac mae hyn yn datblygu eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn briodol. Sicrheir bod y plant yn cael cyfleoedd cyson i gael ymarfer corfforol y tu fewn trwy weithgareddau sydd wedi eu cynllunio'n bwrpasol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo lles, datblygiad moesol, ysbrydol, cymdeithasol a diwylliannol y plant yn datblygu'n llwyddiannus. Mae'r ymarferwyr yn meithrin gwerthoedd, fel gonestrwydd, tegwch a pharch, yn llwyddiannus trwy weithgareddau ac arferion dyddiol. Er enghraifft, maent yn gwobrwyo plant am rannu a dangos parch at eraill neu ymddwyn yn dda. Mae'r ymarferwyr yn manteisio ar gyfleoedd buddiol i ddatblygu ymwybyddiaeth o wahanol ddiwylliannau, er enghraifft wrth ddathlu Blwyddyn Newydd Tsieineaidd.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn cael eu trosglwyddo yn ddiogel i ofal eu rhieni neu ofalwr.

Mae prosesau cadarn gan y lleoliad i ymateb i anghenion unrhyw blentyn ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r arweinydd yn gweithio'n agos gydag asiantaethau allanol i sicrhau bod gweithdrefnau priodol yn cael eu gweithredu'n effeithiol yn ôl yr angen.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae awyrgylch ofalgar a diwyd o fewn y lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n dda i sicrhau ethos cynhwysol lle mae pob plentyn yn cael ei barchu, yn cael yr un chwarae teg a'i drin yn gyfartal.

Mae'r ymarferwyr yn darparu amgylchfyd deniadol ac ysgogol ac mae gan y lleoliad gyflenwad addas o adnoddau pwrpasol. Gwneir defnydd effeithiol o'r rhain i gefnogi egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn yr adeilad. Mae'r ardaloedd darpariaeth barhaus y tu mewn yn cynnig cyfleoedd cyfoethog i blant ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o arddangosfeydd lliwgar a deniadol er mwyn atgyfnerthu'r dysgu a dathlu gwaith y plant yn llwyddiannus. Mae'r lleoliad yn ddiogel ac yn cael ei gadw'n lân.

Mae gan y lleoliad ardal allanol bwrpasol gydag amrywiaeth o adnoddau i gefnogi llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr yn sicrhau gweithgareddau digon cyson yn yr ardal allanol drwy'r flwyddyn.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan yr arweinydd weledigaeth glir sy'n gosod pwyslais cadarn ar sicrhau lles a chynnydd y plant. Mae'n rhannu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus ymysg yr holl ymarferwyr. Mae'n arweinydd profiadol, trefnus a chydwybodol iawn ac mae ganddi

ddisgwyliadau uchel o'i hun ac o'r holl ymarferwyr. Mae'r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n llawn ac yn cydweithio'n effeithiol fel tîm. Mae hyn yn cyfrannu at ethos gweithgar lle mae plant ag ymarferwyr yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. O ganlyniad, mae rhediad y lleoliad o ddydd i ddydd yn llyfn ac yn gyson. Mae'r arweinydd yn defnyddio arweiniad a chyngor gan asiantaethau allanol yn fedrus er mwyn gwella ansawdd y ddarpariaeth a chodi safonau.

Mae'r pwyllgor a'r person cofrestredig yn derbyn gwybodaeth berthnasol gyson gan yr arweinydd. Cyfranna'r pwyllgor yn fuddiol tuag at reolaeth y lleoliad gan drafod cefnogaeth ac anghenion y lleoliad mewn cyfarfodydd yn rheolaidd. Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan weithredol yn y prosesau rheoli perfformiad. Fodd bynnag, nid ydynt wedi sicrhau amser gweinyddol digonol i'r arweinydd.

Mae'r lleoliad yn rhoi sylw gwerthfawr i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Maent yn ffocysu'n effeithiol ar hybu medrau llythrennedd a rhifedd y plant.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r arweinydd yn cydweithio'n effeithiol gydag ymarferwyr a'r pwyllgor rheoli i gynnal hunanarfarniad ffurfiol yn flynyddol. Mae'r lleoliad yn casglu barn a sylwadau'r rhieni yn fedrus trwy holiaduron rheolaidd. Mae hyn yn cyfrannu'n dda i'r adroddiad hunanarfarnu ac yn sicrhau gwelliant; er enghraifft, yn dilyn ymgynghoriad cynhwysfawr, newidiwyd trefniadau cwrdd â rhieni. Mae'r pwyllgor a'r person cofrestredig yn cyfrannu'n fuddiol i'r broses gan gefnogi'r ymarferwyr yn effeithiol. Maent yn derbyn gwybodaeth gyfredol am waith y lleoliad ac yn ymweld yn rheolaidd. O ganlyniad, maent yn cynnig cefnogaeth briodol yn ôl yr angen.

Mae'r arweinydd yn manteisio ar weithdrefnau a chyngor yr awdurdod lleol er mwyn sicrhau bod yr adroddiad yn ffocysu ar safonau, y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth. Ar y cyfan, mae'r adroddiad hunanarfarnu yn arfarnol ac yn adnabod cryfderau'r lleoliad yn llwyddiannus, yn ogystal â llawer o'r meysydd sydd angen eu gwella.

Mae'r blaenoriaethau ar gyfer meysydd i'w gwella yn cael eu trosglwyddo i'r cynllun datblygu yn llwyddiannus. Mae hyn yn arwain at welliannau sydd yn effeithio'n gadarnhaol ar gynnydd y plant ac mae'r lleoliad wedi ymateb yn dda i argymhellion yr arolygiad blaenorol. Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol gydag athrawes ymgynghorol y sir ac yn gweithredu'n brydlon ar unrhyw gyngor neu argymhelliad. Enghraifft o hyn yw'r strategaethau i gefnogi plant sydd angen cymorth ychwanegol i siarad Cymraeg. Mae gwerthusiadau o gynlluniau blaenorol yn dangos cynnydd parhaol. Mae'r cynllun datblygu yn ddogfen ymarferol sy'n canolbwyntio'n briodol ar gyfoethogi'r ddarpariaeth. Mae'n gosod targedau addas ar gyfer gwelliant ac yn nodi meini prawf clir er mwyn gwerthuso effaith y gweithredu. Fodd bynnag, nid yw'r cynllun yn cynnwys costau penodol ar gyfer gweithredu'r targedau.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r lleoliad yn cydweithio'n effeithiol gydag ystod o bartneriaid sy'n cyfrannu'n fuddiol at godi safonau a lles y plant. Mae perthynas dda iawn rhwng yr ymarferwyr a rhieni'r plant. Mae polisi drws agored y lleoliad yn golygu bod rhieni'n cael cyfleoedd rheolaidd i gyfarfod â staff a thrafod unrhyw bryderon yn gynnar iawn.

Maent yn derbyn gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant trwy gyfarfodydd ffurfiol a'r 'llyfr trysor' sy'n amlinellu eu profiadau a'u medrau dros amser.

Mae rhieni'n derbyn gwybodaeth werthfawr am gynnwys cynlluniau'r tymor ac am weithgareddau dyddiol. Mae hyn yn caniatáu iddynt gymryd rôl weithredol yn addysg eu plant.

Mae'r bartneriaeth gref gydag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth ac arweinyddiaeth y lleoliad. Mae gan y lleoliad gysylltiad buddiol â Mudiad Meithrin, er enghraifft trwy fanteisio ar gyfleoedd i dderbyn hyfforddiant. Mae ymarferwyr yn cydweithio'n briodol gydag asiantaethau arbenigol pan fo angen cymorth ychwanegol ar blant.

Mae bron pob rhiant yn teimlo bod eu plant wedi'u paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg yn yr ysgol. Er bod cyswllt priodol rhwng y lleoliad a'r ysgol, nid ydynt yn manteisio'n ddigonol ar gyfleoedd i drosglwyddo gwybodaeth ddefnyddiol am fedrau, deilliannau'r plant a lles.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol iawn o'r gymuned i gyfoethogi profiadau'r plant, er enghraifft ymweld â chanolfan arddio leol ac archfarchnad. Mae hyn yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gyfoethogi eu profiadau dysgu. Yn ogystal, mae gweithgareddau codi arian y pwyllgor yn cynnig cyfleoedd cymdeithasol hwyliog i deuluoedd yr ardal.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr â chymwysterau priodol a phrofiad perthnasol o weithio gyda phlant ifanc. Mae'r arweinydd yn sicrhau bod pob ymarferydd yn cefnogi'r dysgu'n fedrus gan wneud y defnydd gorau o'u profiad a'u harbenigedd.

Mae systemau rheoli perfformiad yn drylwyr ac yn cefnogi datblygiad y staff yn effeithiol. Mae'r arweinydd hefyd yn effeithiol wrth ddatblygu medrau myfyrwyr sydd yn dod i'r lleoliad ar brofiad gwaith ac fel gwirfoddolwyr. Mae'r ymarferwyr yn manteisio ar gyfleoedd i fynychu hyfforddiant er mwyn datblygu eu dealltwriaeth a dysgu dulliau newydd o ddysgu ac addysgu, er enghraifft trwy fynychu hyfforddiant ar ddulliau hybu ymddygiad cadarnhaol. Mae'r ymarferwyr wedi ymweld â lleoliadau cyfagos, ac maent yn rhannu arfer dda'r lleoliad efo lleoliadau eraill.

Mae'r arweinwyr yn rheoli adnoddau yn effeithlon ac yn sicrhau cyflenwad da o gyfarpar dysgu sy'n ymateb i ofynion y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol.

Mae gan yr arweinydd a swyddogion y pwyllgor ddealltwriaeth dda o sefyllfa ariannol y lleoliad. Maent yn rheoli gwariant yn effeithiol ac yn cydweithio i geisio sicrhau cyllid digonol i'r lleoliad. Yn sgil y ddarpariaeth effeithiol, y staff diwyd, y pwyllgor rheoli cefnogol a'r arweinyddiaeth bwrpasol, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i’r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Mr Maldwyn Ellis Pryse | Arolygydd Cofnodol |
| Mr Kevin Davies | Arolygydd Tîm |

**Copïau o’r adroddiad**

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |